Gyrfa Cymru
Careers Wales

Cymeradwywyd gan | Endorsed by
Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for Educational Leadership Wales

# Tystysgrif Lefel 6 mewn Arweinyddiaeth Gyrfaoedd

Bydd y Cwricwlwm i Cymru yn cyflwyno sawl newid, ac un ohonynt fydd gweithrediad addysg gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith fel thema trawsgwricwlaidd.

Bydd angen i leoliadau roi sylw priodol i'r canllawiau statudol ar gyfer gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith a sicrhau bod gweithwyr proffesiynol addysg yn gallu gwireddu ac ymgorffori gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith ar draws eu cwricwlwm.

Mewn ymateb i hyn, mae Gyrfa Cymru yn cynnig cymhwyster achrededig Lefel 6 mewn Arweinyddiaeth Gyrfaoedd i ymarferwyr ledled Cymru; mae'r cymhwyster hwn yn darparu hyfforddiant i gefnogi cynllunio, dylunio ac arwain ar addysg gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith. Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i ardystio gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru.

Mae'r dystysgrif mewn Arweinyddiaeth Gyrfaoedd yn cefnogi Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu a'r Safonau Proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth:

- **Addysgeg** – cynllunio rhaglen addysg yrfaoedd sy'n cefnogi pob dysgwr i gyflawni ei ganlyniadau gorau
- **Arweinyddiaeth** – mae'r arweinydd gyrfaoedd yn grymuso cydweithwyr i ddatblygu gweledigaeth cyfrannol ar gyfer gwireddu gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn y CiC
- **Dysgu Proffesiynol** – datblygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth a fydd yn tanategu ddatblygiad addysg gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith
- **Arloesi** – sicrhau bod addysg gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn cael yr effaith fwyaf a gall fod yn flaengar
- **Cydweithio** – gall gweithwyr proffesiynol gweithio'n agos gyda ymarferwyr eraill, yn eu hysgolion eu hunain ac mewn ysgolion eraill, i ddatblygu gwybodaeth ac arferion gorau

Cyflwynir y cymhwyster yn ddigidol dros dri diwrnod a hanner, wedi'i wasgaru ar draws y flwyddyn academaidd. Yn ogystal, ceir cyflwyniad awr o hyd (wedi'i gyflwyno'n ddigidol). Mae'r cymhwyster mae'n cynnwys yr unedau Fframwaith Credydau a Chymwysterau Lefel 6 canlynol:

- **Arwain a rheoli gwaith datblygu gyrfaoedd mewn sefydliad**
- **Gwella gwaith datblygu gyrfaoedd mewn yn barhaus mewn sefydliad**
- **Cynllunio a dylunio rhaglenni dysgu sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd**

Dechrau mis Hydref 2023, mae gennym 15 lle wedi'u hariannu'n llawn; mae'r cymhwyster hwn yn addas ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol am yrfaoedd a phrofiadau byd gwaith mewn ysgolion a lleoliadau ledled Cymru.

Gellir gweld manylion y tair unedau yn yr adran 'unedau' yn:

[http://www.ocr.org.uk/qualifications/vocational-qualifications-qcf-career-guidance-and-development-level-6-diploma-10215/](http://www.ocr.org.uk/qualifications/vocational-qualifications-qcf-career-guidance-and-development-level-6-diploma-10215/)

Cyflwynir y cymhwyster trwy Microsoft Teams ar y dyddiad canlynol:

- **Dydd Llun 2il Hydref 2023** (Cyflwyniad un awr)

- **Dydd Mawrth 17eg Hydref 2023** (Diwrnod llawn)
- **Dydd Mawrth 24ain Hydref 2023** (Hanner diwrnod)
- **Dydd Mawrth 6ed Chwefror 2024** Diwrnod llawn)
- **Dydd Mawrth 21ain Mai 2024** (Diwrnod llan)

Mae presenoldeb ar y dyddiad hyn yn hanfodol gan y bydd yr hyfforddiant yn cwmpasu'r wybodaeth a'r sgiliau y bydd disgwyl i chi eu tystio i ddangos eich cymhwysedd. Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu gan weithwyr proffesiynol gyrfaoedd cymwysedig o Gyrfa Cymru.

Bydd pob ymgeisydd yn derbyn llyfr gwaith pwrpasol ar gyfer pob un o'r unedau ynghyd â chopïau o'r deunyddiau hyfforddi, darllen pellach ac adnoddau. Cyflwynir yr hyfforddiant yn Saesneg er bydd yr holl ddeunyddiau hyfforddi ac adnoddau ar gael yn Gymraeg a gall ymgeiswyr gyflwyno eu gwaith yn y Gymraeg.

Dyrennir Asesydd profiadol i bob ymgeisydd a fydd yn cefnogi ymgeiswyr trwy gydol y cymhwyster ac fydd yn helpu i egluro'r trefniadau asesu, monitro cynnydd a sut i gyflwyno aseiniadau a thystiolaeth. Nid oes angen unrhyw gymwysterau blaenorol i ymgymryd dystysgrif hon ond mae angen ystyried eich llwyth gwaith a mae angen gallu academaidd, ac ymrwymiad i astudio ar lefel 6, ynghyd â chefnogaeth eich Uwch Dîm Rheoli.

Am fwy o wybodaeth neu i archebu lle ar garfan 2023/24, cysylltwch â timcwricwlwm@gyrfacymru.llyw.cymru

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y gofynion asesu, cysylltwch â Colette Cousins ar Colette.cousins@careerswales.gov.wales

**Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ydy 5yp ar Dydd Llun 10fed Gorffennaf 2023**